

STORM ENFAWR 1859

Tom Parry sy'n adrodd effaith y storm ar dref Llandudno

Ar 25 Hydref 1859 fe gododd storm enfawr ar hyd arfordir Prydain a cholodd mwy nag 800 o bobl eu bywydau a drylliwyd dros 200 o fadau. Yn bendant y drychineb fwyaf oedd colli'r Royal Charter, y Llong Aur ym Moelfre. Yn wir hyd heddiw adnabyddir y storm fel un y Royal Charter. Roedd y drychineb yma, a cholli dros 400 o fywydau yn ei sgil, yn hawlio'r penawdau i gyd gan fwrw digwyddiau eraill y diwrnod hwnnw i'r cysgod.

Ond fe gafodd y storm effaith enfawr ar dref Llandudno hefyd a hynny mewn cyfnod o newid mawr. Roedd yr hen ddiwydiant copr yn dod i ben ac yn dilyn Deddf Cau'r Tir 1845 roedd tref glan môr gyfoes yn datblygu ar dir corsiog Morfa Rhianedd. Roedd Llandudno yn tyfu'n gyflym fel tref newydd ac fe fyddai'r storm yn sicrhau'r datblygiad hwnnw. Tua'r un adeg lanswyd cynllun mawr Harbwr San Siôr gyda'r bwriad o redeg y rheilffordd i'r traeth ac adeiladu harbwr yno i elwa o fasnach o'r Iwerddon ac allforio glo o byllau Sir Ddinbych. I'r diben hwn adeiladwyd pier gerllaw safle presennol y Grand Hotel. Gyda dyfodiad y rheilffordd gellid fod wedi sefydlu porthladd i Iwerddon naill ai yng Nghaergybi, Porthdinllaen neu Landudno. Roedd hi'n dipyn o gystadleuaeth rhwng y porthladdoedd wrth reswm gan fod y wobwr yn un fawr i'r porthladd llwyddiannus.

Ar fore'r 25ain o Hydref 1859 roedd nerth y gwynt o'r gogledd orllewin yn cynyddu'n gorwynt ac yn hyrddio tonnau enfawr i Fae Llandudno. Mae un llygad-dyst o'r cyfnod yn disgrifio'r tonnau fel mynyddyddoedd yn rhuo i'r bae ac yn chwalu ar safle bresennol y promenâd. Roedd ewyn gwyn fel niwl dros y bae wrth i gorwynt yrru'r tonnau tuag at y lan. Roedd hyd yn oed llongwyr profiadol o'r farn na welwyd tonnau fel hyn o'r blaen ym Mae Llandudno. Bryd hynny, roedd rhes o dai to gwellt wrth ymyl safle presennol Gwesty'r Washington. Fe'u chwalwyd gan y tonnau a gorfu i'r trigolion ddianc am eu bywydau. Disgrifia un llygad-dyst fwrdd ar ei ben i lawr yn cael ei gludo i'r môr. Curwyd y pier newydd yn ddirugaredd. Malwyd y gwaith pren yn briciau mân gan wasgaru'r gweddillion ar hyd y traeth. Mae'r adroddiad yn sôn fel y codwyd y tollborth gan don a'i adael ar ochr ddwyreiniol y traeth.

Roedd y difrod yn ddigon i chwalu cynlluniau adeiladu porthladd newydd yn y dref. Wrth i'r pier ddymchwel diflannodd holl obeithion y dref i gystadlu â Chaergybi fel lleoliad y datblygiad newydd. O hynny ymlaen pentref glan môr fyddai Llandudno ac nid y prif borthladd i'r Iwerddon. Wrth gwrs, roedd y trigolion ar y pryd yn siomedig iawn pan sylweddolwyd na fyddai'n bosib gwireddu cynllun Harbwr San Siôr. Oni bai am y noson honno, fe fyddai hanes y dref o bosib yn hollol wahanol a thref arall fyddai'n hawlio'r teitl Brenhines y Trefi Glan Môr.

